



# Troseddau Casineb a Bwlio yn Oes y Cyfryngau Cymdeithasol

Adroddiad Cynhadledd

Dr. Matthew Williams a  
Dr. Olivia Pearson

## Cynnwys

Trosolwg .....	2
Cyd-destun .....	4
Seibergasineb .....	4
Amlygiad a Mynychder Seibergasineb.....	4
Seibergasineb a Digwyddiadau sy'n ei Sbarduno .....	6
Ymatebion Cenedlaethol a Rhyngwladol.....	7
Seiberfwlio .....	10
Mynychder a Phatrymau.....	11
Effeithiau Seiberfwlio.....	12
Adrodd ar Seiberfwlio ac Ymateb iddo.....	14
Ymatebion Cenedlaethol a Rhyngwladol.....	14
Cyngor ac Atal Rhyngwladol.....	15
Deddfwriaeth, Polisi ac Arweiniad Cenedlaethol (Cymru a Lloegr) .....	15
Canfyddiadau'r Gynhadledd .....	20
Seibergasineb .....	20
Rhwysrau .....	20
Datrysiadau ac Enghreifftiau o Arferion Gorau.....	21
Seiberfwlio .....	23
Rhwysrau .....	23
Datrysiadau ac Enghreifftiau o Arferion Gorau.....	23
Argymhellion Cychwynnol a Chamau Nesaf .....	28
Seibergasineb .....	29
Seiberfwlio .....	29
Cyfeiriadau .....	31

## 1. Trosolwg

1.1 Tynnodd Prosiect Troseddau Casineb Cymru Gyfan (Williams a Tregidga 2013, 2014) sylw at broblem seibergasineb a seiberfwlio sy'n dod i'r amlwg yn y cyfryngau cymdeithasol trwy gynnal cyfweiliadau â dioddefwyr. Bu cynnydd cyflym iawn yn y cyfleoedd i ymgysylltu ar-lein yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf. Ym 1999, dim ond 10 y cant o aelwydydd y DU oedd â mynediad i'r Rhyngrwyd. Tyfodd hyn i 53 y cant yn 2005 ac i 85 y cant yn 2015 (ONS 2015). Yn ôl amcangyfrifon, mae oddeutu 2.5 biliwn o ddefnyddwyr aneithriadol yn aelodau o gyfryngau cymdeithasol yn fyd-eang, gyda Facebook, Google+ a Twitter yn cyfrif am dros hanner o'r rhain (Sloan et al. 2015, 2015, Williams et al. 2016). Mae technolegau cyfryngau cymdeithasol agored sydd ar gael yn eang, fel Twitter a Facebook, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan ddinasyddion yn fyd-eang i gyhoeddi cynnwys ar-lein. Gall yr wybodaeth yn y rhwydweithiau hyn ymledu mewn nifer o ffyrdd, yn amrywio o ffyrdd cadarnhaol, fel cefnogi cadernid cymdeithasol trwy alwadau am gymorth a chynghor (Morell et al. 2011), i ffyrdd negyddol, fel creu ac ehangu camwybodaeth a sylwadau gelyniaethus a rhagfarnllyd (Burnap et al. 2013, 2014, Williams et al. 2013).

1.2 Mae Troseddau Casineb a'u defnydd ar-lein yn cael eu cydnabod fel blaenoriaeth bellach gan Lywodraeth y DU. Gellir cael cosb o hyd at 2 flynedd o garchar bellach am anfon negeseuon bygythiol trwy'r Rhyngrwyd (Deddf Cyfathrebu Maleisus 1998 fel y'i diwygiwyd gan Fil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015). Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' ac mae datblygiad cyflym y cyfryngau cymdeithasol yn cyflwyno heriau sylweddol i bartneriaid ac asiantaethau. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon, gall ymarferwyr fod yn anymwybodol o natur a mynychder seibergasineb a bwlio ar gyfryngau cymdeithasol ac o'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â nhw.

Nod y gynhadledd hon oedd mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn yr wybodaeth trwy gynnal cyfres o gyflwyniadau allweddol gan arweinwyr amlwg iawn yn y maes a

thrwy weithdai ymarferol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu profiadau'r rhai a oedd yn bresennol yn y gynhadledd o ran y rhwystrau cyfredol a'r datrysiadau posibl ym maes seibergasineb a bwlio ac mae'n cynnig argymhellion cenedlaethol.

## 2. Cyd-destun

### 2.1 *Seibergasineb*

2.1.1 Er bod seibergasineb<sup>1</sup> wedi bod yn amlwg ers dechrau'r defnydd o'r rhyngwrwd yn y cartref (gan ddechrau gyda lansio gwefan Stormfront ym 1995<sup>2</sup>), dim ond yn ddiweddar y cafodd ei ystyried yn broblem gymdeithasol sydd angen mynd i'r afael â hi. Mae amlygrwydd y broblem yn gysylltiedig â chydabyddiaeth bod mannau ar-lein, fel platfformau cymdeithasol, bellach yn cynrychioli mannau cyhoeddus lle caiff agweddau allweddol ar gymdeithas sifil eu perfformio (Mossberger et al. 2008). I adlewyrchu hyn, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhoeddi canllawiau i'r heddlu sy'n nodi rhwydweithiau ar-lein fel 'mannau cyhoeddus' gan alluogi pobl i gael eu herlyn dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus yn ogystal â'r Ddeddf Cyfathrebu Maleisus (Gwasanaeth Erlyn y Goron 2015). Ym 2014, cyhoeddodd cyn Ysgrifennydd Cyfiawnder y DU, Chris Grayling, gynlluniau i gynyddu'r ddedfryd fwyaf ar gyfer cynnwys ar-lein difriol a ffiائد. Yn 2015, pasiwyd y gellid cael dedfryd o hyd at 2 flynedd o garchar fel cosb am anfon negeseuon bygythiol trwy'r Rhyngwrwd (Deddf Cyfathrebu Maleisus 1998, fel y'i diwygiwyd gan Fil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015).

### 2.2 *Amlygiad a Mynychder Seibergasineb*

2.2.1 Mae seibergasineb wedi ymddangos mewn cyfathrebiadau ar-lein mewn amrywiol gyd-destunau ers i'r Rhyngwrwd ddod yn boblogaidd ymhlith y boblogaeth gyffredinol yng nghanol yr 1990au (Williams 2006). Mae darpariaethau cyfreithiol y DU yn cynnwys Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988, Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae

---

<sup>1</sup> Mae 'trolio' (targedu negeseuon difriol a gelyniaethus at ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol) wedi bod yn bwnc llosg yn y wasg yn ddiweddar. Rydym yn osgoi defnyddio'r term yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn gallu cynnwys ffurfiau mwy eang o gam-drin ar-lein nad yw'n gyfyngedig i ddioddefwyr â nodweddion lleiafrifol neu warchoddedig.

\*Matthew L. Williams, Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, Rhodfa Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3WT, y DU; WilliamsM7@cf.ac.uk.

<sup>2</sup> Roedd Stormfront yn bodoli ar ffurf bwrdd bwletin ar ddechrau'r 1990au, cyn iddo gael ei ailffurfio fel gwefan.

cymhwysiad y cyfreithiau hyn ac eraill, sy'n ei gwneud hi'n drosedd annog ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol<sup>3</sup> yn y cyd-destun ar-lein, yn gymharol annadleuol, yn ôl tystiolaeth sawl achos proffil uchel o seibergasineb yn y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar (gweler isod).

2.2.2 Er gwaethaf y darpariaethau hyn, ychydig iawn o ymateb cyfiawnder troseddol a welwyd yn y DU i sgysiau casineb a oedd yn cael eu cynnal ar-lein (cyn y cyfryngau cymdeithasol) am fwy na degawd. Ymhellach i ffwrdd, mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau, ni chaiff seiberfwlio ei orfodi rhyw lawer o hyd gan y gyfraith oherwydd mesurau diogelu rhyddid i lefaru. Cynhaliodd Levin astudiaeth (2002) ynghylch sut yr oedd grwpiau adain dde yn yr Unol Daleithiau yn hyrwyddo'u nodau ar y We heb unrhyw fath o her gan orfodaeth gyfreithiol. Daeth i'r casgliad bod y cyfrwng ar-lein wedi bod yn ddefnyddiol i bobl llawn casineb gan ei fod yn economaidd, yn hirmestynol ac yn cael ei ddiogelu gan y Gwelliant Cyntaf. Canfu Perry ac Olsson (2009) bod y We'n creu man cyffredin newydd a oedd yn meithrin 'hunaniaeth gyfunol' ar gyfer grwpiau casineb a oedd wedi'u gwasgaru'n flaenorol, gan gryfhau eu presenoldeb domestig mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau, yr Almaen a Sweden. Maent yn rhybuddio y gallai 'isddiwylliant hiliol byd-eang' ddatblygu os na eir i'r afael â seibergasineb. Mae Eichhorn (2001) yn canolbwyntio ar sut mae'r amgylchedd ar-lein yn cyflwyno posibilïadau ar gyfer ystyried iaith atgas mewn cyd-destun newydd mwy uniongyrchol a radical, gan dynnu sylw hefyd at bosibiliadau defnyddio dulliau ymateb mwy effeithiol, megis gwarcheidwadaeth a gwrthwynebu iaith casineb. Mewn astudiaeth o effeithiau tudalennau gwe â deunydd casineb, canfu Leets (2001) fod ymatebwyr yn teimlo bod bygythiad anuniongyrchol ond llechwraidd yng nghynnwys y safleoedd hyn, tra bod Oksanen et al. (2014) yn dangos bod 67 y cant o'r rhai rhwng 15 a 18 mlwydd oed yn eu hastudiaeth wedi gweld deunydd casineb ar Facebook ac YouTube, a 21 y cant ohonynt wedi bod yn ddiodefwr deunydd o'r fath. Mae'r astudiaeth olaf hon yn dangos sut mae'r cynnydd yn y platfformau cyfryngau cymdeithasol wedi digwydd law yn llaw â chynnydd cyflym mewn seibergasineb (gweler hefyd Williams a Burnap 2015).

---

<sup>3</sup> Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2008 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnffudo 2008.

### **2.3 Seibergasineb a Digwyddiadau sy'n ei Sbarduno**

2.3.1 Dengys gwaith ymchwil fod mynychder a difrifoldeb troseddau a chanddynt elfen ragfarnllyd yn cael eu dylanwadu yn y tymor byr gan un digwyddiad neu glwstwr o ddigwyddiadau. Yn fwyaf nodedig, dangosodd gwaith Philips (1980) sut oedd y digwyddiadau mwyaf difrifol o'r troseddau hyn yn cael eu dylanwadu gan lofruddiaethau a gafodd sylw eang ar gyfryngau, a dangosodd Bobo et al. (1994) sut oedd terfysgoedd yn dylanwadu'n fawr ar farn y cyhoedd o leiafrifoedd hiliol. Yn fwy diweddar, mae achosion o derfysgaeth wedi dangos eu bod yn dylanwadu ar fynychder teimladau yn erbyn mewnfudwyr a throseddau a digwyddiadau casineb. Ar raddfa Ewropeaidd, sefydlodd Legewie (2013) gysylltiad arwyddocaol rhwng teimladau gwrth-fewnfudwyr a'r bomio gan derfysgwyr yn Bali a Madrid gan ddefnyddio data Ewrobaromedr. Yn yr un modd, canfu King a Sutton (2014) gysylltiad rhwng gweithredoedd terfysgwyr a'r cynnydd mewn achosion o droseddau casineb yn yr UD. Mae'r rhain yn dangos, gydag argyhoeddiad, bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi cofnodi 481 o droseddau casineb â chymhelliad gwrth-Islamaidd penodol yn dilyn ymosodiad terfysgol 9/11, gyda 58 y cant o'r rhain yn digwydd o fewn pythefnos i'r ymosodiad (4 y cant o'r cyfnod risg o 12 mis). Yn y DU, canfu Hanes a Machin (2014) gynnydd sylweddol yn y troseddau casineb a adroddwyd i'r heddlu yn Llundain yn dilyn 9/11 a 7/7 (28 a 32 y cant o gynnydd yn y mis dilynol yn ôl eu trefn). Daw'r awduron hyn i'r casgliad bod troseddau casineb yn clystyru mewn amser ac yn tueddu i gynyddu, mewn modd dramatig weithiau, yn dilyn 'sbardun' blaenorol neu ddigwyddiadau ysgogol, fel gweithredoedd terfysgwyr. Maent yn rhagdybio bod troseddau casineb yn weithredoedd cyfathrebol, sy'n aml yn cael eu hannog gan ddigwyddiadau sy'n peri i'r grwpiau sydd wedi'u targedu ddial yn erbyn y grŵp sy'n rhannu nodweddion tebyg i'r sawl a gyflawnodd y drosedd.

2.3.2 Dadleuodd Williams a Burnap (2015) mai defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yw'r rhai cyntaf i gyhoeddi ymateb i ddigwyddiadau sy'n sbarduno, fel gweithredoedd gan derfysgwyr. O ystyried bod 2.5 biliwn o bobl erbyn hyn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Smith 2014), mae'r cyfathrebiadau hyn yn rhoi cipolwg o farn y cyhoedd ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen ac yn gyflym iawn (yn aml,

i'r eiliad). Yn wir, mae tystiolaeth ar gael i gefnogi'r ddadl hon yn ystod yr erlyniaeth proffil uchel diweddar o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol a bostiodd ymatebion emosiynol negyddol yn dilyn amrywiol ddigwyddiadau. Er enghraifft, yn 2012, dedfrydwyd Liam Stacey i 56 diwrnod o garchar am bostio sylwadau hiliol ar Twitter wedi i bêl-droediwr gael trawiad ar y galon a chafodd Daniel Thomas ei arestio wedi i neges homoffobig gael ei hanfon at y deifiwr Olympaidd, Tom Daley. Yn 2014, cafodd Isabella Sorley, John Nimmo a Peter Nunn eu carcharu am gam-drin yr ymgyrchydd ffeministaidd Caroline Criado-Perez a'r AS Stella Creasy, a chafodd Declan McCuish ei garcharu am flwyddyn am drydaru sylwadau hiliol am ddau o chwaraewyr Clwb Pêl-droed y Rangers. Cafodd saith o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol eu harestio mewn cysylltiad â'r ymosodiad terfysgol yn Woolwich ar ôl postio negeseuon yr amheuwyd eu bod yn annog casineb hiliol neu grefyddol (BBC 2013).

2.3.3 Yn ystod eu gwaith ymchwil, datblygodd Williams a Burnap (2015) offeryn categoreiddio seibergasineb awtomatig i ddod o hyd i iaith casineb a ddefnyddiwyd gan ddefnyddwyr unigol Twitter yn dilyn yr ymosodiad gan derfysgwyr yn Woolwich, yn y DU yn 2013 (gweler hefyd Burnap a Williams 2015). Canfu'r rhain mai'r rheini a oedd yn uniaethu â grwpiau gwleidyddol adain dde oedd y mwyaf tebygol i gynhyrchu cynnwys gelyniaethus ar Twitter yn dilyn yr ymosodiad. Yn yr un modd â chasineb nad yw'n digwydd ar-lein, gwelwyd fod seibergasineb yn cyrraedd ei anterth ac yna'n lleihau'n gyflym o fewn y 48 awr gyntaf i'r ymosodiad, gan ddangos mai hanner bywyd sydd gan seibergasineb. Maent yn dod i'r casgliad bod y cyfryngau cymdeithasol yn gweithredu fel arf sy'n chwyddo grym seibergasineb gan ei fod yn gallu creu gofod posibl ar gyfer annog a lledaenu'n gyflym gredoau gelyniaethus, drwy ledaenu sion niweidiol ar-lein.

## **2.4 Ymatebion Cenedlaethol a Rhyngwladol**

2.4.1 Hyd yn ddiweddar iawn, ychydig iawn o reoleiddio sydd wedi bod ar seibergasineb gan y wladwriaeth. Rhan o'r rheswm dros yr ymateb rhyngwladol araf i reoleiddio seibergasineb yw'r farn hen ffasiwn bellach bod cyfathrebu ymosodol ar-



lein yn llai niweidiol na chyfathrebu tebyg nad yw'n digwydd ar-lein. Am fwy na degawd, cafodd amgylcheddau ar-lein 'rhithwir' a'r profiadau a gafwyd oddi mewn iddynt eu hystyried ar wahân i amgylcheddau 'go iawn' nad ydynt ar-lein. Arweiniodd y gwahanu hwn at lawer o bobl, gan gynnwys y cyhoedd, swyddogion gorfodi'r gyfraith a gwneuthurwyr polisi, yn credu nad oedd yr hyn a ddigwyddai mewn mannau rhithwir yn ddifrifol rywsut, a'u bod yn debyg hyd yn oed i gêm heb ganlyniadau (Joinson 2003, Williams 2006). Felly ni chafodd y math hwn o 'niwed' ar-lein ei gydnabod, ac fe'i hystyriwyd yn ffenomen 'ddibwys' *de minimis*<sup>4</sup> heb le iddi wrth blismona troseddau (Hillyard et al. 2004, Wall a Williams 2007, Williams et al. 2013).

2.4.2 Yng Nghymru a Lloegr, ceir darpariaeth mewn ystod o ddeddfwriaethau, yn cynnwys y Ddeddf Cyfathrebu Maleisus (1998), y Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu (1997) a'r darpariaethau annog dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus (1986) sy'n nodi bod rhywun sy'n defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus neu'n arddangos deunydd ysgrifenedig bygythiol, difriol neu sarhaus yn euog ... os yw (a) yn bwriadu drwy hynny ysgogi casineb hiliol, neu (b) gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn debygol o ysgogi casineb hiliol. Yn bellach i ffwrdd, mae Penderfyniad Fframwaith yr UE ar Hiliaeth a Senoffobia (2008) a Phenderfyniad Cyngor Gweinidogol 9/09 y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydlynu yn Ewrop ar Drechu Troseddau Casineb yn darparu diogelwch tebyg rhag ysgogi casineb a thrais ar-lein.

2.4.3 Er gwaethaf y llif diweddar o arestiadau ac erlyniadau ar gyfer achosion o seibergasineb mewn cyfryngau cymdeithasol dan yr amrywiol ddarpariaethau yng Nghymru a Lloegr, nid oes digon o adnoddau cyfiawnder troseddol o hyd i blismona'r holl gyfathrebu sy'n digwydd trwy rwydweithiau cyfrifiadurol. Mae'r broblem hon o fynychder yn erbyn capasiti yn arwain dioddefwyr seibergasineb a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt i golli eu hyder (Gianassi 2014). Caiff y problemau capasiti hyn eu cymhlethu gan gyflymder y newid anochel mewn technolegau cyfathrebu, a

---

<sup>4</sup> O: *de minimis non curat lex*: Nid yw'r gyfraith yn ymwneud â phethau dibwys

chan ddiwydiant tameidiog ac anghydweithredol. Yn hanesyddol, roedd cewri'r cyfryngau cymdeithasol (Google, Facebook a Twitter) yn gyndyn i ddod ynghyd i helpu swyddogion gorfodi'r gyfraith i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol, oherwydd natur gystadleuol ffyrnig eu diwydiant a'u barn athronyddol ar ryddid i lefaru. Yn 2013, cyfarfu cynrychiolwyr o rai o'r cwmnïau hyn â gwleidyddion a gweithwyr academiaidd am y tro cyntaf ym Mhrifysgol Stanford mewn cyfarfod gan Dasglu'r *Glymblaid Rhyng-seneddol ar gyfer Trechu Gwrth-Semitiaeth* (ICCA) ar Gasineb Rhyngrwyd. Yn y cyfarfod, canfuwyd mai ar weinyddwyr yr U.D. yr oedd y rhan fwyaf o'r cynnwys casineb, a'i bod hi'n anodd iawn ymateb i seibergasineb oherwydd ei raddfa a'i ddiffiniad. Hefyd, mae methu â gorfodi'r gyfraith a chymryd camau sifil ar draws ffiniau yn atal unrhyw newid ystyrlon i faint a dwyster seibergasineb ac mae'r dechnoleg sy'n newid yn fythol yn gwneud gorfodi'r gyfraith a chymau gweithredu sifil ar draws ffiniau'n fwy anodd o lawer (ICCA 2013). O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, sefydlodd yr Anti-Defamation League (ADL) '*Best Practices for Responding to Cyberhate*' (ADL 2014), sy'n argymhell i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol ymateb yn amserol a chymesurol, ac i'r gymuned Rhyngrwyd archwilio cyfleoedd i ddefnyddio gwrthwynebiad i iaith casineb fel dewis arall posibl i sancsiynau troseddol.

2.4.4 Mae'r arferion gorau hyn yn cynnwys<sup>5</sup>:

**Darparwyr:**

- Dylai darparwyr gymryd adroddiadau am seibergasineb o ddifrif, gan fod yn ystyriol o egwyddorion sylfaenol rhyddid i fynegi, urddas dynol, diogelwch personol a pharch tuag at reolau'r gyfraith.
- Dylai darparwyr sy'n dangos cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr gynnig eglurhad clir o'u dull o werthuso a datrys adroddiadau ar gynnwys ffiائد, gan amlygu eu hamodau gwasanaeth perthnasol.
- Dylai darparwyr gynnig mecanweithiau a gweithdrefnau adrodd cynnwys ffiائد sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr.
- Dylai darparwyr ymateb i adroddiadau gan ddefnyddwyr mewn modd amserol.

---

<sup>5</sup> <http://www.adl.org/combating-hate/cyber-safety/best-practices/#.Vo5nMcZ4zHM>

- Dylai darparwyr orfodi pa bynnag sancsiynau y mae eu hamodau gwasanaeth yn eu hystyried mewn modd cyson a theg.

### **Cymuned y Rhyngwrwd:**

- Dylai Cymuned y Rhyngwrwd gydweithio i fynd i'r afael â chanlyniadau niweidiol casineb ar-lein.
- Dylai Cymuned y Rhyngwrwd nodi, gweithredu a/neu annog strategaethau i wrthwynebu iaith casineb yn effeithiol – gan gynnwys ymateb yn uniongyrchol; comedi a gwatwar lle bo'n briodol; neu, yn syml, nodi'r ffeithiau cywir.
- Dylai Cymuned y Rhyngwrwd rannu gwybodaeth a helpu i ddatblygu deunyddiau a rhaglenni addysgol sy'n annog pobl i feddwl yn feirniadol mewn gweithgarwch ar-lein rhagweithiol ac adweithiol.
- Dylai Cymuned y Rhyngwrwd annog partïon eraill â diddordeb i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r broblem o seibergasineb a'r angen brys i fynd i'r afael â hi.
- Dylai Cymuned y Rhyngwrwd groesawu ffyrdd newydd o feddwl a mentrau newydd i hyrwyddo amgylchedd ar-lein sifil.

## **2.5 Seiberfwlio**

2.5.1 Math o fwlio sy'n digwydd ar-lein yw Seiberfwlio; trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ystafelloedd gemau neu sgwrsio neu drwy ffonau symudol a thabledi. Gall Seiberfwlio ddigwydd mewn llawer o ffyrdd. Gall gynnwys:

- Aflonyddu neu drolio: anfon negeseuon bygythiol neu sarhaus, rhannu lluniau a fideos sy'n peri embaras neu bostio negeseuon bygythiol neu sy'n peri gofid ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- Pardduo: bathu gwybodaeth anwir er mwyn lledaenu sïon;
- Fflamio: iaith eithafol er mwyn annog ffrae;
- Dwyn hunaniaeth rhywun neu hacio safle rhywun;
- Allgáu: gadael rhywun allan yn fwriadol;
- Anfon lluniau cignoeth neu roi pwysau ar eraill i anfon lluniau o natur rywiol.

2.5.2 Yn wahanol i ffurfiau traddodiadol o fwlio, gall fod yn llawer mwy anodd dianc rhag seiberfwlio gan ei fod yn gallu digwydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chyrraedd dioddefwyr yn eu cartrefi. Gall hefyd ymledu'n llawer pellach, gan fod fideos a negeseuon a rennir ar draws safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn gallu cael eu gweld gan gynulleidfaoedd mawr. Gall seiberfwlio fod yn estyniad o fwlio traddodiadol nad yw'n digwydd ar lein, pan fydd y dioddefwr yn gwybod pwy yw'r bwllis, neu gall fod yn ddiennw a heb unrhyw gysylltiad â chydabod heb fod ar-lein.

## **2.6 Mynychder a Phatrymau**

2.6.1 Mae seiberfwlio yn faes pryder sy'n cynyddu'n gyflym. Mae llawer o astudiaethau ymchwil wedi ymchwilio i fynychder seiberfwlio, yn arbennig ymhlith pobl ifanc. Mae'r amcangyfrif o ba mor aml y mae seiberfwlio'n cael ei ddioddef a'i gyflawni'n amrywio'n fawr rhwng astudiaethau. Yr anghysondebau methodolegol a'r gwahaniaethau rhwng diffiniadau yn yr astudiaethau sydd wedi'u cynnal sy'n gyfrifol am hyn.

Awgryma ffigurau o'r prif elusennau gwrth-fwlio yn y DU y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc naill ai'n profi seiberfwlio fel dioddefwyr, yn rhai sy'n ei gyflawni neu'n rhai sy'n ei weld ar ryw adeg. Mewn arolwg ar-lein diweddar, canfu Bullying UK fod 56% o bobl ifanc wedi nodi eu bod wedi gweld eraill yn cael eu bwlio ar-lein (Bullying UK 2014). Canfu adolygiad systematig o ymchwil rhyngwladol ar seiberfwlio bod y cyfraddau ar gyfer pa mor aml yr oedd rhywun yn dioddef yn amrywio rhwng 4-72% (Nixon 2014). Mewn cymhariaeth, mae astudiaethau yn y DU wedi nodi bod y cyfraddau dioddef rhwng 15 a 28% (Ditch the Label 2013, 2014, 2015, IpsosMori 2014, Cross et al. 2012).

2.6.2 Defnyddiodd Adroddiad Seiberfwlio rhyngwladol 2013 yr elusen gwrth-fwlio *Ditch yne Label* y set ddata fwyaf a oedd yn ymwneud â bwlio, gyda mwy na 10,000 o bobl ifanc. Amcangyfrifwyd bod 5.43 miliwn o bobl ifanc yn y DU wedi profi

seiberfwlio, gyda 1.26 miliwn yn wynebu seiberfwlio eithafol bob dydd. Roedd 7 o bob 10 person ifanc ar draws yr arolwg cyfan wedi dioddef seiberfwlio ac roedd 37% wedi ei brofi'n gyson iawn. Canfu Ail Astudiaeth Trosedd Rithwir Beatbullying fod 20% o bobl ifanc wedi dweud bod eu profiad nhw'n estyniad o fwlio nad oedd yn digwydd ar-lein, a dywedodd 27% fod y bwlio a brofwyd ganddyn nhw wedi cychwyn ar-lein (Cross et al. 2012). Felly, ymddengys fod bwlio'n dod yn ffenomen fwyfwy cyffredin sy'n dechrau ar-lein.

2.6.3 Yn yr un modd â dulliau bwlio mwy traddodiadol, nid yw dioddef a chyflawni seiberfwlio'n annibynnol ar ei gilydd. Canfu astudiaeth yng Nghanada (Mishna et al. 2012) bod 25.7% o bobl ifanc wedi ystyried eu hunain yn ddiodefwyr ac yn gyflawnwyr seiberfwlio dros y tri mis diwethaf. Mewn astudiaeth arall, pan ofynnwyd i gyflawnwyr pam eu bod yn ymhél â seiberfwlio, dywedodd 39% mai eu prif ysgogiad oedd dial, tra bod 26% yn ei wneud fel jôc, 16% yn ei wneud am eu bod yn 'grac am bethau' a 15% yn ei wneud am eu bod wedi diflasu (Cross 2012).

2.6.4 Mae astudiaethau hefyd wedi nodi'r platfformau a'r sianeli lle mae seiberfwlio'n cael ei weithredu. Dangosodd adroddiad *Ditch the Label* (2014) mai Facebook, Twitter ac Ask.FM oedd y rhwydweithiau cymdeithasol mwyaf cyffredin ar gyfer seiberfwlio. Canfu hefyd bod aps ffonau clyfar yn ffynhonnell amlwg o seiberfwlio. Roedd bron i ddwy ran o dair (62%) o bobl a oedd wedi dioddef seiberfwlio wedi derbyn 'negeseuon preifat ffiadd' trwy'r cyfrwng hwn.

## **2.7 Effeithiau Seiberfwlio**

2.7.1 Gall seiberfwlio gael effeithiau negyddol sylweddol ar fywydau pobl. Yn yr un modd â dulliau bwlio mwy traddodiadol, gall achosi niwed seicolegol, emosiynol a chorfforol. Mae gwaith ymchwil ar effeithiau seiberfwlio wedi nodi'r ffactorau canlynol cyffredin (ond nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- *Iselder*: Nododd Raskaukas a Stoltz (2007) fod 93% o ddiodefwyr yn dweud eu bod wedi wynebu effeithiau niweidiol seiberfwlio, ac roedd llawer o'r rhain yn ymwneud ag iselder, gan gynnwys tristwch, anobaith a theimlo'n ddi-rym. Mae astudiaethau eraill wedi dangos cysylltiad rhwng lefelau uwch o ddiodef seiberfwlio a lefelau uwch o iselder.
- *Colli hyder*: Gall seiberfwlio gael effeithiau niweidiol ar hunan-barch diodefwyr. Canfu *Beatbullying* fod 19% o'r ymatebwyr yn dweud bod ganddynt lai o hunanhyder o ganlyniad i achosion o seiberfwlio (Cross et al. 2012).
- *Ofn*: Yn y Ffindir, canfu Sourander et al. (2010) fod diodefwyr seiberfwlio'n poeni am eu diogelwch yn fwy na dulliau bwlio 'traddodiadol'. Awgrymwyd mai'r rheswm dros hyn oedd yr elfen anhysbys sy'n gysylltiedig â seiberfwlio. Canfu arolwg *Beatbullying* fod 20% o bobl ifanc yn gyndyn i fynd i'r ysgol gan eu bod yn ofni bwllis (Cross et al. 2012).
- *Ynysu a phroblemau creu perthynas*: Gall seiberfwlio effeithio ar gyfeillgarwch a pherthynas diodefwyr â phobl eraill mewn amryw o ffyrdd. Mae diodefwyr wedi dweud eu bod yn teimlo'n unig, wedi'u hynysu, yn ddiymadferth a bod ganddynt lai o gysylltiadau â chyfoedion neu fod cysylltiadau'n chwalu (Nixon 2014).
- *Hunan-niweidio*: Mewn rhai achosion, gall seiberfwlio arwain at bobl yn hunan-niweidio. Canfu *Beatbullying* fod 5% o bobl ifanc wedi hunan-niweidio o ganlyniad i ddiodef seiberfwlio (Cross et al. 2012). Awgrymwyd hefyd bod y perygl o hunan-niweidio'n waeth pan fydd diodefwyr yn cael eu targedu'n fwriadol dros gyfnod hir.
- *Hunanladdiad*: Awgryma'r ymchwil fod diodefwyr a'r sawl sy'n cyflawni'r seiberfwlio yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am hunanladdiad neu wedi ceisio lladd eu hunain na chyfoedion nad oeddent wedi diodef seiberfwlio. Mae'r rhai sy'n cyflawni seiberfwlio 1.5 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi ceisio lladd eu hunain na chyfoedion nad ydynt yn gysylltiedig â seiberfwlio, ac mae hyn ddwywaith yn fwy tebygol ymhlith diodefwyr. Dywedodd *Beatbullying* hefyd fod 3% o bobl ifanc wedi ceisio lladd eu hunain o ganlyniad i seiberfwlio (Cross et al. 2012).

## **2.8 Adrodd ar Seiberfwlio ac Ymateb iddo**

2.8.1 Gan ystyried y ffigurau hyn, mae'n amlwg fod darparu cymorth i bobl ifanc i ymdrin ag achosion o seiberfwlio a'u hannog i sôn am yr achosion hyn yn hanfodol. Fodd bynnag, awgryma'r ymchwil bod angen gwneud llawer mwy o hyd o safbwynt adrodd am seiberfwlio ac ymateb iddo.

2.8.2 Canfu *Ditch the Label* nad yw 52% o bobl ifanc erioed wedi adrodd am gamdriniaeth sydd wedi digwydd trwy aps ffonau clyfar. Credai 26% o'r rhai a wnaeth adrodd am achosion nad oeddent wedi cael eu hystyried o ddifrif. Un rheswm pam nad yw pobl ifanc eisiau adrodd am seiberfwlio ar-lein, felly, yw am eu bod yn teimlo na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud am y peth. Nodwyd hyn mewn astudiaeth ddiweddar gan *Bullying UK*. Canfu'r rhain pan oedd bwlio'n cael ei adrodd i safle rhwydwaith cymdeithasol, mai dim ond 8.8% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod y rhwydwaith wedi cymryd unrhyw gamau. Canfu hefyd fod rhieni wedi bod yn gyndyn i adrodd am achosion o seiberfwlio. Dim ond 30% o rieni sydd wedi adrodd am fwlio ar-lein ac, yn yr achosion hyn, dim ond 50% o'r rhwydweithiau cymdeithasol a ymatebodd (Bullying UK 2014).

## **2.9 Ymatebion Cenedlaethol a Rhyngwladol**

2.9.1 Nid oes rhyw lawer o ymateb cenedlaethol na rhyngwladol ffurfiol ar gael ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r broblem o seiberfwlio. Mae gwefannau gwrth-fwlio, elusennau cenedlaethol/rhyngwladol ac astudiaethau ymchwil yn tueddu i gynnig rhywfaint o gyngor ac argymhellion ar atal seiberfwlio ac ymateb iddo. Mae adrannau llywodraethol yng Nghymru a Lloegr hefyd wedi cyhoeddi ychydig o gyngor yn ddiweddar. Nid oes unrhyw fframweithiau deddfwriaethol penodol ar waith sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â seiberfwlio, ond mae nifer o gyfreithiau cymwys yn y DU (gweler isod).

### *Cyngor ac Atal Rhyngwladol*

2.9.2 Mae'r ymatebion argymelledig cenedlaethol a rhyngwladol i seiberfwlio yn awgrymu y dylid ei atal i ddechrau, trwy addysgu myfyrwyr, staff ysgolion a rhieni am ddiogelwch ar y Rhynggrwyd. Awgrymir bod ysgolion yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn addysg y cwricwlwm, yn enwedig gyda mwy a mwy o bobl ifanc yn ymwneud â thechnolegau digidol.

2.9.3 Awgryma'r cyngor gan sefydliadau yng Ngogledd America ac yn y DU<sup>6</sup> (Hindula 2014) y dylai pobl ifanc ddefnyddio'r gosodiadau preifatrwydd sydd gan safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i'w diogelu eu hunain rhag y perygl o seiberfwlio. Pan fydd achos o fwlio ar-lein, dylai pobl ifanc sôn am yr achos wrth oedolyn. Dylent gadw unrhyw dystiolaeth bosibl o seiberfwlio a pheidio ag ymateb na dial ar seiberfwliaid. Cyflwynir cyngor hefyd i rieni. Mae *StopCyberBullying* yn dweud wrth oedolion am fod yn ymwybodol o'r hyn y mae pobl ifanc yn ei wneud ar-lein, i osod rheolau am ddefnyddio technoleg, ac i rieni siarad â'u plant am ddefnyddio'r Rhynggrwyd. Os bydd seiberfwlio'n digwydd, anogir oedolion i ddweud hyn wrth Ddarparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd (ISPs), ysgolion a safleoedd cyfryngau cymdeithasol os yw'n briodol. Os yw'r seiberfwlio'n cynnwys achosion a ystyrir yn droseddol (e.e. bygythiadau o drais, derbyn lluniau cignoeth, stelcian neu dderbyn negeseuon casineb hiliol neu homoffobig), argymhellir oedolion hefyd i gymryd camau cyfreithiol.

### *Deddfwriaeth, Polisi ac Arweiniad Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)*

2.9.4 Yn 2014, cyhoeddodd yr Adran Addysg ddwy ddogfen ganllaw (yr Adran Addysg 2014, 2015) i ysgolion yn ymwneud â diogelu plant a pholisiau a phrosesau ar gyfer ymateb i fwlio (yn cynnwys seiberfwlio). Roedd y rhain yn cynnwys dyletswyddau cyfreithiol sy'n rhaid cydymffurfio â nhw, dull y llywodraeth o ymdrin â bwlio a'r pwerau sydd gan ysgolion a cholegau i fynd i'r afael â bwlio. Mae

---

<sup>6</sup> ChildLine ([www.childline.org.uk](http://www.childline.org.uk)); Bullying UK ([www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk)); Stop Cyber Bullying (<http://www.stopcyberbullying.org>)



Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ei hun (Llywodraeth Cymru 2011)<sup>7</sup> ar fwlio mewn ysgolion, sy'n cynnwys cyngor a datrysiadau ymarferol i atal ac ymateb i fwlio.

2.9.5 O dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003, mae'n ofynnol i ysgolion ledled Cymru a Lloegr gael polisiau a phrosesau gwrth-fwlio a ddylai gynnwys darpariaethau ar gyfer ymdrin â seiberfwlio. Mae fframweithiau deddfwriaethol eraill, yn cynnwys Deddf Addysg 2011, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, a Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn gosod dyletswyddau ar ysgolion a chyrrff eraill cyhoeddus i ddiogelu myfyrwyr rhag bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddwch. Mae Deddf Addysg 2011 hefyd yn caniatáu i athrawon chwilio am ddyfeisiau electronig er mwyn cael tystiolaeth o fwlio neu ymddygiad bygythiol rhwng myfyrwyr.

2.9.6 Nid yw seiberfwlio'n drosedd benodol yn y DU. Fodd bynnag, ystyrir gweithgareddau fel aflonyddu ac ymddygiad bygythiol, anfon e-byst ymosodol neu negeseuon eraill anwedus neu aflan a gwneud galwadau ffôn dienw neu ddifriol yn drosedd dan ddeddfwriaethau amrywiol: Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997; Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998; Deddf Telathrebu 1984; Deddf Aflonyddu 1997; Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 a; Deddf Cyfathrebu 2003.

2.9.7 Cyhoeddodd Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhynggrwyd adroddiad yn ddiweddar, *Child Safety Online: A Practical Guide for Providers of Social Media and Interactive Services* (2015). Mae'r Canllaw yn cynnwys:

#### **Rheoli'r Cynnwys ar Eich Gwasanaeth**

- Penderfynwch pa gynnwys sy'n dderbyniol ar eich gwasanaeth, a sut byddwch chi'n egluro hyn i ddefnyddwyr.
- Byddwch yn glir ynghylch cyfyngiadau isafswm oedran, a pheidiwch ag annog y rheini sy'n rhy ifanc.

- Ystyriwch fesurau diogelwch diofyn gwahanol ar gyfer cyfrifon sy'n cael eu hagog gan rai dan 18 oed.
- Ewch ati'n rheolaidd i gynllunio a diweddarau'r ffordd y byddwch yn rheoli cynnwys amhriodol neu anghyfreithiol a gaiff ei bostio ar eich safle.
- Ystyriwch ddefnyddio datrysiadau gwirio oedran a dilysu hunaniaeth.
- Cynlluniwch nawr ar gyfer ymdrin â chynnwys anghyfreithiol.
- I blant dan 13 oed, ystyriwch amgylchedd gardd furiog a safoni'r cynnwys ymlaen llaw cyn y bydd defnyddwyr yn ei weld. Yn ogystal â hyn, ymglyfarwyddwch â rheolau'r DU ynghylch hysbysebu i blant.

### **Rheolyddion Rhieni**

- Ystyriwch reolyddion rhieni sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eich gwasanaeth.
- Byddwch yn ymwybodol o sut gallai gwahanol reolyddion rhieni ryngweithio â'ch gwefan neu'ch ap.

### **Ymdrin â Cham-drin/Camddefnyddio**

- Esboniwch i ddefnyddwyr beth yw'r math o ymddygiad yr ydych yn ei ganiatáu a'r hyn nad ydych yn ei ganiatáu ar eich gwasanaeth.
- Gwnewch hi'n hawdd i ddefnyddwyr adrodd i chi am broblemau cynnwys.
- Crëwch system frysbenneu i ymdrin ag adroddiadau cynnwys.
- Gweithiwch gydag arbenigwyr i roi mwy o wybodaeth a chymorth lleol i ddefnyddwyr.
- Ar gyfer plant dan 13 oed, siaradwch yn eu hiaith nhw, a safonwch eu cynnwys cyn ac ar ôl ei bostio.

### **Ymdrin â Chynnwys sy'n ymwneud â Cham-drin Plant yn Rhywiol a Chyswllt**

## **Anghyfreithiol**

- Darperwch swyddogaeth safonol fel y gall eich defnyddwyr adrodd ar gynnwys sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a chyswllt rhywiol anghyfreithiol.
- Sefydlwch dîm o arbenigwyr, sydd hefyd yn cael cefnogaeth i'w hunain, i adolygu'r adroddiadau hyn.
- Ystyriwch dechnoleg fel PhotoDNA a gweithiwch gyda chyrrff perthnasol fel Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF) i helpu i gael gwared â chynnwys sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.
- Trosglwyddwch adroddiadau ar gynnwys sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a chyswllt rhywiol anghyfreithiol i'r sianel briodol i'w harchwilio.
- Dywedwch wrth ddefnyddwyr sut gallant adrodd ar gynnwys sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol neu gyswllt rhywiol anghyfreithiol yn uniongyrchol i'r awdurdodau perthnasol a/neu sut i gael rhagor o gyngor.

## **Preifatrwydd a Rheolyddion**

- Dim ond y data personol yr ydych chi ei angen mewn gwirionedd sydd angen ei gasglu ar gyfer eich gwasanaeth.
- Rhowch wybod i ddefnyddwyr pa wybodaeth yr ydych yn ei chasglu, a pham a pha mor hir y byddwch chi'n ei chadw.
- Rhowch ddewisiadau rhesymol i ddefnyddwyr am sut i ddefnyddio'u gwybodaeth personol a'r mathau penodol o ddata, fel data canfod lleoliad.
- Cynigwch ddewisiadau gosodiadau preifatrwydd, yn cynnwys preifatrwydd diofyn, er mwyn rhoi rheolaeth i'ch defnyddwyr.

- Cysylltwch â rhieni/gwarcheidwaid os ydych yn casglu data personol gan rai dan 18 oed.
- Gosodwch fesurau preifatrwydd mwy llym ar blant dan 13 oed er mwyn eu helpu i ddeall y goblygiadau o ran rhannu gwybodaeth.

### **Addysg ac Ymwybyddiaeth**

- Dylech addysgu defnyddwyr am ddiogelwch fel rhan o'r profiad ar eich platfform.
- Gweithiwch gyda rhieni, addysgwyr, defnyddwyr a'u cymunedau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein i blant.
- Gweithiwch gydag arbenigwyr er mwyn helpu i ddatblygu'ch negeseuon ac i gyrraedd cymunedau gwahanol.
- Ceisiwch deilwra'r iaith a'r arddull i blant dan 13 oed er mwyn ennyn eu diddordeb.

### **3. Canfyddiadau'r Gynhadledd**

Agorwyd y gynhadledd gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cafwyd cyflwyniadau cyweirnod ar bynciau a oedd yn cynnwys: Diogelwch ar-lein i Blant a'r Heriau, Claire Lilley, Pennaeth Diogelwch Plant Ar-lein, NSPCC; Seibergasineb: y Cyd-destunau yn y DU ac yn Rhyngwladol, Paul Giannasi, y Weinyddiaeth Gyfiawnder; Heriau Troseddau Casineb i Blismona ledled Cymru, y Gwir Anrh. Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru; a'r Heriau a'r Ymatebion ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol, Nick Pickles, Pennaeth Polisi Twitter UK. Mewn wyth gweithdy a arweiniwyd gan arbenigwyr, ceisiwyd dod o hyd i farn cyfranogwyr y gynhadledd ar y rhwystrau a'r atebion ar gyfer trechu seibergasineb a seiberfwlio ar gyfryngau cymdeithasol.

#### **3.1 Seibergasineb**

3.1.1 Canolbwyntiodd pedwar o weithdai'r gynhadledd ar nodi'r rhwystrau a'r atebion i drechu seibergasineb ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol: Achosion Terfysgol a Lledaeniad Seibergasineb (Dr Matt Williams, Prifysgol Caerdydd); Seibergasineb: Cyfiawnder Troseddol a'r Gyfraith – Eryln Casineb Ar-lein (Paul Giannasi, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Mike Whine, Community Security Trust); Peidiwch â Bwydo'r Troliau: Ymatebion a Heriau Ymddygiad Ar-lein (Dr Amy Binns, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn); ac Islamaffobia a'r Adain Dde Bell: Patrymau a Heriau Cyfryngau Cymdeithasol (Fiyaz Mughal, Tell MAMA). Cyflwynir y themâu allweddol a nodwyd ar draws y gweithdai hyn isod.

#### **3.1.2 Rhwystrau**

- Mae'r dystiolaeth a'r data ar seibergasineb yn wael. Mae dystiolaeth storiol yn dangos bod problem yn datblygu, ond nid oes unrhyw ffynonellau swyddogol i gefnogi hyn. Heb dystiolaeth gadarn o raddfa a natur y broblem, ni allwn ddatblygu datrysiadau ymarferol a pholisi.

- Ychydig iawn a wyddys ar hyn o bryd am effeithiau seibergasineb a sut mae'r rhain yn cymharu â throeddau casineb nad ydynt yn digwydd ar-lein.
- Dangoswyd bod seibergasineb yn ymddangos ar ôl digwyddiadau 'sbarduno' fel ymosodiadau gan derfysgwyr, ond ni chaiff y dechnoleg i adnabod iaith casineb ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol ei mabwysiadu'n eang gan awdurdodau sy'n gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd.
- Mae angen ffynonellau gwybodaeth gwell ar ddiodefwrwr a throeddwrwr am y gyfraith sy'n ymwneud â seibergasineb yng Nghymru a Lloegr.
- Mae gwrthwynebu iaith casineb yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o gymunedau ar-lein i atal lledaeniad seibergasineb, ond mewn rhai achosion, gall y dull o wrthwynebu iaith casineb greu cylchred o gasineb, gan wneud y broblem yn waeth.

### 3.1.3 Datrysiaidau ac Enghreifftiau o Arferion Da

- Mae Gwasanaeth Eryl y Goron yn cydnabod y rhyngwyd fel 'lle cyhoeddus' bellach, gan ganiatáu i droseddau trefn gyhoeddus gael eu defnyddio dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.
- Cyfleuster gwe yw True vision a gaiff ei gynnal gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Lanswyd ef yn 2011 ac mae'n darparu platfform ar-lein ar gyfer adrodd am droseddau casineb ac yn darparu gwybodaeth i ddiodefwrwrwr ac eiriolwrwr. Mae'n cynnwys strategaethau a pholisïau swyddogol sy'n darparu canllawiau i'r heddlu a phartneriaid ar sut i ymateb i achosion o gasineb, beth sy'n digwydd pan fyddwch yn adrodd am drosedd casineb, syniadau a sefydliadau diogelwch personol sy'n gallu cynnig cymorth. Mae'r safle hefyd yn cynnig y data a'r adroddiadau ar y troseddau casineb diweddaraf. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei gweithredu, ymwelwyd â'r safle fwy na 6,000 gwaith

(Gianassi 2012). Yn 2011/2012, adroddodd y cyhoedd am 1,900 achos o droseddau casineb i True Vision, ac nid oedd llawer o'r rhain wedi'u hadrodd yn uniongyrchol i'r heddlu. Mae'r ffigur hwn wedi codi'n barhaus, gyda 2,957 o achosion yn cael eu hadrodd yn 2012/2013 a 3,461 yn 2013-2014 (y Swyddfa Gartref 2014). Yn 2013, lansiwyd ap ffôn symudol True Vision i gefnogi'r wefan. Gellir ei lawrlwytho am ddim a chafodd ei lawrlwytho fwy na 3,000 gwaith rhwng 2013-2014 (y Swyddfa Gartref 2014).

- Mae fersiwn Cymraeg o True Vision ar gael. Yn 2014/15, cafodd 91 adroddiad ei gyflwyno trwy wefan True Vision, a gafodd eu hatgyfeirio i un o bedwar ardal Heddlu Cymru, o'i gymharu â 66 adroddiad yn 2013/14.
- Mae ymchwil academiaidd sy'n archwilio cynhyrchiad a lledaeniad seibergasineb, ac a arweinir gan Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, wedi cynhyrchu offeryn canfod awtomatig ar gyfer seibergasineb yng nghyfathrebiadau Twitter. Gellir integreiddio'r offeryn hwn i mewn i systemau cyfrifiadurol sefydliadau sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu'r cyhoedd (e.e. yr heddlu, a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector). Mae'r offeryn hwn yn golygu y gall seibergasineb gael ei fonitro ar gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar ôl digwyddiad 'sbarduno'. Mae'r gallu i ganfod a monitro cynnwys ffiadd ar-lein yn caniatáu i gamau cael eu cymryd i atal cynnwys niweidiol neu elyniaethus rhag cael ei ledaenu. Mae'r Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol wrthi'n gweithio gyda'r Community Security Trust yn Llundain ar hyn o bryd i integreiddio'r offeryn i mewn i'w systemau er mwyn monitro'r ffordd y caiff cynnwys gwrth-Semitaidd ei gynhyrchu a'i ledaenu ar Twitter.
- Mae'r Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ar ddefnydd effeithiol o wrthwynebu iaith casineb gan aelodau o'r gymuned ar-lein. Er y gall fod yn ddefnyddiol atal seibergasineb rhag lledaenu, dengys canlyniadau cychwynnol y gall hefyd wneud sefyllfaoedd yn waeth os na chaiff ei defnyddio'n briodol.

## 3.2 *Seiberfwlio*

3.2.1 Canolbwyntiodd pedwar o weithdai'r gynhadledd ar nodi'r rhwystrau a'r datrysiadau i drechu seiberfwlio ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol: Diogelwch ac Ymarfer Ar-lein yn y DU (Andrew Williams a David Wright, Grid De-orllewin Lloegr ar gyfer Dysgu); Ymddygiad Ar-lein: Sut mae Pobl Ifanc yn defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol (Rachel Benson, Youth Cymru); Seiberddiogelwch i Rieni a Phlant (Andrew Williams a David Wright, Grid De-orllewin Lloegr ar gyfer Dysgu); a Phornograffi Dial a Thecstio Rhywiol: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod (Shereen Williams, Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Dwyrain Gwent). Cyflwynir y themâu allweddol a nodwyd ar draws y gweithdai hyn isod.

### 3.2.2 Rhwystrau

- Mae rhwystr sgiliau'n bodoli mewn perthynas â thechnoleg cyfryngau cymdeithasol ymhlith rhai staff addysgu yng Nghymru.
- Ni chaniateir amser i athrawon gael eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r technolegau hyn a'r ffyrdd gorau o atal seiberfwlio.
- Pwysleisiodd cyfranogwyr y gweithdai ei bod yn fwy anodd cyrraedd rhai rhieni nag eraill o ran cyfathrebu negeseuon e-ddiogelwch.
- Mae diffyg cysondeb rhwng ysgolion o ran darparu hyfforddiant ar e-ddiogelwch i athrawon a chyfarwyddiadau i fyfyrwyr.

### 3.2.3 Datrysiadau ac Enghreifftiau o Arferion Gorau

- Amlygwyd Parth e-Ddiogelwch Llywodraeth Cymru fel enghraifft dda o arfer gorau gan lywodraeth. Credai cyfranogwyr y gynhadledd y byddai rhagor o ymgyrchoedd hyrwyddo'n gwella effaith a defnydd yr adnodd. Mae parth E-Ddiogelwch Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Grid De-orllewin



Lloegr ar gyfer Dysgu, sy'n rhan o Ganolfan Rhyngwyd Mwy Diogel y DU. Nod y Parth e-Ddiogelwch yw hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o'r Rhyngwyd gan bawb. Seiliwyd y prosiect ar arolwg o asesiad o anghenion a gynhaliwyd gan Grid De-orllewin Lloegr ar gyfer Dysgu a Phrifysgol Plymouth (Phippen 2014). Nod yr arolwg oedd diffinio tirwedd Cymru a darparodd ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad y sylfaen sydd wrth wraidd gwaith y bartneriaeth e-ddiogelwch (Phippen 2014). Mae'r parth e-ddiogelwch yn darparu amrywiaeth o adnoddau, dolenni, cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr addysg proffesiynol trwy ei blatfform ar-lein, Parth e-Ddiogelwch Hwb. Roedd yr adnoddau'n cynnwys offeryn hunan-arolygu e-ddiogelwch ar-lein a addaswyd yn benodol i'w ddefnyddio gan ysgolion Cymru ac adnoddau llythrennedd digidol sy'n rhoi canllawiau i athrawon ar sut i sicrhau bod gan eu dysgwyr sgiliau llythrennedd digidol trwy bob Cyfnod Allweddol.

- Mae'r bartneriaeth e-ddiogelwch hefyd yn cynnig nifer o sesiynau hyfforddi. Mae'n cynnig 2 ddiwrnod o hyfforddiant a chymorth e-Ddiogelwch i bob awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r digwyddiadau wedi'u hanelu'n benodol at ysgolion a staff ysgol a thimau diogelu awdurdodau lleol.
- Nodwyd y Bartneriaeth rhwng O<sup>2</sup> a'r NSPCC ([www.o2.co.uk/nspcc](http://www.o2.co.uk/nspcc)) fel enghraifft o arfer da. Nod y bartneriaeth yw rhoi'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar rieni i gadw eu plant yn ddiogel ar-lein. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys; 1) Llinell gymorth diogelwch ar-lein am ddim i rieni ffonio am gyngor technegol (fel gosod rheolyddion rhieni, addasu'r gosodiad preifatrwydd a deall safleoedd rhwydweithio cymdeithasol); 2) Gweithdai diogelwch ar-lein i rieni a gofalwyr mewn ysgolion a gweithfannau, a; 3) Staff hyfforddedig fel y gall pob siop O<sup>2</sup> helpu oedolion gyda'u pryderon ynghylch diogelwch ar-lein. Sefydlwyd y bartneriaeth yn 2015 mewn ymateb i waith ymchwil newydd, a ganfu nad oedd miloedd o blant yn derbyn y cyngor a'r cymorth angenrheidiol am y Rhyngwyd ar adeg pan mae eu hangen fwyaf. Amlygodd arolwg a gynhaliwyd gan YouGov 'oediad digidol' lle'r oedd rhieni'n ei gadael hi'n rhy hwyr i gael sgwrs hanfodol gyda'u plant am sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Cynlluniwyd y bartneriaeth i helpu

rhieni a gwarcheidwaid i weld y Rhyngrwyd yn yr un modd â'u plant ac i ddeall ei beryglon gwirioneddol.

- Amlygwyd Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru fel enghraifft o arfer gorau a allai gael ei ddefnyddio i hyrwyddo negeseuon a hyfforddiant e-ddiogelwch. Lanswyd y Rhwydwaith (WNHSS) ym 1999 a chynlluniwyd ef i annog ysgolion iach i gael eu creu o fewn fframwaith cenedlaethol. Ariennir y Cynlluniau Ysgolion Iach gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac maent yn darparu canllaw i wasanaethau iechyd ac addysg wrth sefydlu cynlluniau ysgolion iach yn y 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Nod y Cynlluniau Ysgolion Iach yw hyrwyddo a diogelu iechyd a lles ffisegol, emosiynol a chymdeithasol plant yng Nghymru. Mae'r Cynlluniau'n annog ysgolion i weithio ar draws saith pwnc gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys: Bwyd a Ffitrwydd; Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol; Datblygiad Personol a Pherthnasau; Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau; yr Amgylchedd; Diogelwch, a; Hylendid. Mae pob Cynllun Ysgolion Iach yng Nghymru yn ceisio cyflawni'r un set o amcanion. Fodd bynnag, rhan allweddol o'r cynllun yw'r ymreolaeth y mae'n ei ddarparu i ysgolion osod blaenoriaethau ac agendâu eu hunain. Gan fod y cynllun yn annog disgyblion i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gweithredu'r camau i gyflawni ysgolion iach, gallai amcanion y cynlluniau amrywio rhwng ysgolion. Mae Gwobr Ansawdd Genedlaethol am Ragoriaeth yn bodoli i'w rhoi i ysgolion sydd wedi cyflawni'r safonau uchaf ym mhob un o feysydd pwnc Ysgolion Iach. Rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyflawni'r holl ddangosyddion ar gyfer pob un o'r saith maes pwnc Ysgolion Iach a dangos dull ysgol gyfan o gyflawni'r amcanion hyn.
- Nodwyd 'Prosiect Meddwl'<sup>8</sup> y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig (EYST)' fel enghraifft dda o leihau rhagfarn ar sail hil ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hwn yn brosiect a ariennir gan y Loteri Fawr am 3 blynedd i herio rhagfarn ar sail hil ac eithafiaeth adain dde bell ymhlith pobl ifanc sy'n agored i niwed yng Nghymru. Nod y prosiect yw darparu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth i bobl ifanc sydd wedi

---

<sup>8</sup> <http://eyst.org.uk/think-project/>

ymddieithrio yng Nghymru o hil, cred, lloches i fewnfudwyr ac eithafiaeth fel y gallant herio a chwalu safbwyntiau hiliol. Un nod allweddol yw gwrando ar bobl ifanc a'u galluogi i fynegi eu pryderon gwirioneddol a thybiedig, codi eu hyder yn eu synnwyr eu hunain o berthyn a'u gwneud yn fwy gwydn i wrthsefyll syniadau eithafwyr. Mae'r Prosiect Meddwl yn dilyn ymlaen o'r prosiect peilot a ariannwyd gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Yn 2011, canfu'r gwerthusiad o'r prosiect peilot fod pobl ifanc yn credu eu bod wedi gwella eu gwybodaeth am wahanol hiliau, crefyddau a diwylliannau (iworks 2013). Safbwyntiau negyddol oedd gan y mwyafrif o'r bobl ifanc cyn cymryd rhan yn y Prosiect Meddwl. Credai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc nad oedd eu cymunedau'n hoffi pobl o grwpiau hiliol a chrefyddol. Ar ôl cymryd rhan yn y Prosiect Meddwl, mynegodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc lefelau uwch o ddealltwriaeth ac empathi tuag at grwpiau gwahanol. Roedd y bobl ifanc yn teimlo'n fwy hyderus i fynegi eu hunain, yn arbennig ym mhresenoldeb pobl o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig. O ran effaith hirdymor y prosiect, nododd yr adroddiad ei bod hi'n anodd mesur y newid mewn agwedd a bod 'agweddau a chredoau'n cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau cymdeithasol ac ni fydd un prosiect sengl yn datrys pob problem gymdeithasol.' Fodd bynnag, cydnabuwyd bod codi ymwybyddiaeth ac addysg yn gam ymarferol pwysig i ddatblygu mwy o gydlyniant a gwydnwch a bod y prosiect yn fodel defnyddiol yn y broses addysg ffurfiol ac anffurfiol.

- Roedd adnoddau Prosiect Ysgolion Troseddau Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron<sup>9</sup> yn cael eu defnyddio gan rai o gyfranogwyr y gweithdai, ond nododd rhai bod eu defnydd ymhell o fod yn unffurf. Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu pecynnau adnoddau am ddim i athrawon fel y gallant helpu myfyrwyr i archwilio materion ynghylch troseddau casineb a bwlio. Mae amrywiaeth o becynnau ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys set o adnoddau i helpu athrawon i archwilio: casineb tuag at bobl anabl, troseddau casineb ar sail hil a chrefydd, a bwlio a throseddau casineb homoffobig a thrawsffobig. Mae'r pecyn adnoddau'n

---

<sup>9</sup> [http://www.cps.gov.uk/northwest/working\\_with\\_you/hate\\_crime\\_schools\\_project/](http://www.cps.gov.uk/northwest/working_with_you/hate_crime_schools_project/)

cynnwys DVD, sy'n darparu senarios sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau gwirioneddol y mae pobl ifanc wedi'u profi. Hefyd mae'n cynnwys cynlluniau gwersi, sy'n cynnig awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau yn y dosbarth, a gynlluniwyd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o drosedd gasineb ac effaith y math hwn o fwlio ar ddioddefwyr. Gellir lawrlwytho (neu archebu) yr adnoddau hyn am ddim ac maent wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â'r sectorau addysg, cyfiawnder troseddol a gwirfoddol. Ymhlith y rhain roedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Stonewall, Sefydliad Anthony Walker a *Gender Intelligence*. Mae nifer o bobl ifanc o Ymddiriedolaeth Ieuencid Sheena Amnos, Prifysgol Canol Caerhirfryn, Coleg Technoleg Dame Elizabeth Cadbury, LBT Gogledd-orllewin Lloegr ac ysgol yng Ngogledd-orllewin Lloegr hefyd wedi helpu i greu ac actio mewn senarios sy'n seiliedig ar brofiadau gwirioneddol ar gyfer yr adnoddau.

- Amlygwyd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ([schoolbeat.org](http://schoolbeat.org)) fel enghraifft o arfer gorau gan rai o gyfranogwyr y gynhadledd. Rhaglen atal troseddau yw'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSCLP) a gynlluniwyd i addysgu pobl ifanc am y peryglon sy'n gysylltiedig â nifer o faterion cyfredol fel defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, bwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, dieithriaid, diogelwch ar y Rhynggrwyd, arfau, defnyddio ffonau symudol ac ati. Ariennir y rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Heddlu Cymru. Prif amcanion AWSCLP yw 1) gweithio tuag at gael pobl ifanc ein cymunedau i gyflawni llai o droseddau ac anhrefn, trwy gyfrwng addysg; a 2) hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol mewn ysgolion a'u cymunedau ehangach. Er mwyn cydnabod y rhan sydd gan ysgolion i'w chwarae mewn addysgu pobl ifanc am ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol, mae AWSCLP yn canolbwyntio ar ddarparu gwersi ffurfiol gan 85 o swyddogion heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n addysgol. Caiff y gwersi eu cyflwyno yn ystod oriau ysgol, mewn partneriaeth ag athrawon Addysg Personol a Chymdeithasol. Cynlluniwyd dull ffurfiol y rhaglen er mwyn sicrhau bod holl blant Cymru'n derbyn yr un wybodaeth ddiweddaraf. Cynhaliwyd gwerthusiad o 10 ysgol rhwng 2008-2010. O ran diogelwch ar y

Rhyngrwyd, canfu'r gwerthusiad fod athrawon a swyddogion heddlu'r rhaglen wedi nodi bod disgyblion yn gweithredu ar yr wybodaeth a rennir mewn gwersi AWSLP. Nodwyd enghraifft ganddynt, bod disgyblion yn adrodd am ymddygiad amheus ar y Rhyngrwyd. Awgrymodd yr adroddiad hefyd fod rhai disgyblion wedi gofyn am fwy o wersi ar y pwnc hwn.

- Ym mis Mawrth 2015, lanswyd yr Ymgyrch Wythnos o Weithredu yn erbyn Seiberdroseddu gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, gan weithio ochr yn ochr â sectorau gorfodi'r gyfraith genedlaethol a rhyngwladol a'r sector addysg i ymateb i'r bygythiad o seiberdrosedd. Mae gan Heddlu Dyfed Powys Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu arbenigol sydd, ochr yn ochr â *Get Safe Online*, yn helpu pobl a busnesau i gadw'n ddiogel ar-lein. Fel rhan o'r Wythnos Weithredu yn erbyn Seiberdroseddu, canolbwyntwyd ar ddarparu arweiniad i bobl ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein a lleihau'r risg o fod yn ddioddefwyr seiberdrosedd. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau, yn cynnwys cyfres o wasanaethau ysgol yn mynd i'r afael â materion 'tebstio rhywiol', hyfforddiant i swyddogion heddlu a digwyddiadau ar-lein a siop godi yng nghanol tref Aberystwyth. Roedd prif ganolbwynt yr wythnos ar faterion seiberdrosedd allweddol, yn cynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, seiberfwlio, pornograffi dial a thwyll ar-lein trwy gyfryngau cymdeithasol.

### **3.3 Argymhellion Cychwynnol a Chamau Nesaf**

3.3.1 Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn nodi bod achosion o seibergasineb a seiberfwlio'n digwydd yn amlach ac maent yn cael effaith fesuradwy ar iechyd a lles dioddefwyr. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon, mae llawer o ymarferwyr yn parhau i fod yn anymwybodol o natur a mynychder seibergasineb a bwlio ar gyfryngau cymdeithasol a'r adnoddau sydd ar gael i'w trechu. Defnyddiodd gweithdai'r gynhadledd brofiadau'r 100+ o gyfranogwyr a ddaeth o'r sectorau diwydiannol, cyhoeddus a thrydydd sector i nodi'r rhwystrau cyfredol ac i nodi datrysiadau posibl er mwyn dod ag argymhellion cenedlaethol ynghyd. Amlinellir yr argymhellion hyn

isod.

### 3.3.2 Seibergasineb

- Mae angen data gwell ar raddfa, natur ac effeithiau seibergasineb er mwyn targedu'r mentrau ymarferol a pholisi gorau. **Er mwyn cael syniad o'r darlun yng Nghymru, dylid cynnwys cwestiynau pwrpasol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru** (Nid yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cynnwys cwestiynau ar droseddau casineb a weithredir trwy'r Rhynggrwyd ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, nid yw'n bosibl tynnu Cymru o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel o ymatebwyr (n=2600) a dioddefwyr casineb).
- Dylai seibergasineb fod yn eitem sefydlog ar Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb er mwyn monitro a datblygu ffynonellau o dystiolaeth ac i gynghori a chwarae prif ran mewn ymgyrchoedd ataliol.
- Dylid lansio ymgyrch genedlaethol ar yr amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar gael i ddioddefwyr seibergasineb yn ystod yr wythnos codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.
- Dylid datblygu canllaw cenedlaethol i ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol ar 'ddefnydd effeithiol o wrthwynebu iaich casineb'.
- Dylai'r offeryn canfod awtomatig ar gyfer seibergasineb ar gyfryngau cymdeithasol, a ddatblygwyd gan y Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol, cael ei dreialu mewn lleoliad gweithredol er mwyn gweld pa mor ddefnyddiol fyddai i fonitro ac ymateb i iaith casineb ar-lein.

### 3.3.3 Seiberfwlio

- Mae angen rhyddhau staff addysgu a chymorth ysgolion o'u dyletswyddau er mwyn cael hyfforddiant ar atal seiberfwlio. Dylid ceisio dod o hyd i hyfforddiant

gan asiantaethau cyfiawnder troseddol (a allai gael ei ddarparu o bosibl yn ystod yr Wythnos Codi Ymwybyddiaeth o Seiberdrosedd Cenedlaethol) a chan sefydliadau yn y trydydd sector sydd ag arbenigedd mewn diogelwch ar-lein (fel Grid De-orllewin Lloegr ar gyfer Dysgu).

- Dylid ystyried cyflwyno system nod barcud e-ddiogelwch sy'n gysylltiedig ag arolygiadau Estyn. Byddai system o'r fath yn amlygu ysgolion sydd wedi rhoi cyfres o amddiffyniadau ar waith i fyfyrwyr a staff a byddai'n cyflwyno rhywfaint o gysondeb rhwng ysgolion.
- Dylid sefydlu partneriaethau rhwng sefydliadau â chyfrifoldeb dros les plant a chwmnïau ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol, gan ddilyn yr un drefn a'r O<sup>2</sup> NSPCC.
- Dylid sefydlu Pwynt Rhannu Gwybodaeth ar Seiberfwlio diogel er mwyn hwyluso cydweithrediad rhwng asiantaethau a chyfnewid arferion gorau.

#### 4. Cyfeiriadau

BBC (2013) *Woolwich murder sparks anti-Muslim backlash*, Ar gael yn:  
<http://www.bbc.co.uk/news/uk-22664835>

Bullying UK (2014) Arolwg Bwlio Cenedlaethol 2014, wedi'i gymryd o:  
<http://www.familylives.org.uk/about/press/bullying-continues-to-impact-on-wellbeing-of-pupils-parents-and-professionals/>

Burnap, P, Williams, M. L. a Sloan, L. (2014) 'Tweeting the terror: modelling the social media reaction to the Woolwich terrorist attack', *Social Network Analysis and Mining*, 4:206.

Burnap, P. a Williams, M. L. (2015) 'Cyber Hate Speech on Twitter: An Application of Machine Classification and Statistical Modeling for Policy and Decision Making', *Policy & Internet*.

Burnap, P., Williams, M. L. Rana, O., Edwards, A., Avis, N., Morgan, J., Housley, W. a Sloan, L. (2013) Detecting tension in online communities with computational Twitter analysis, *Technological Forecasting & Social Change*.

Cross, E., Piggin, R., Douglas, T. a Vonkaenel-Flatt, J. (2012). *VIRTUAL VIOLENCE II: Progress and Challenges in the Fight against Cyberbullying*, Llundain: Beatbullying/Nominate Trust.

Yr Adran Addysg. (2014). Atal a threchu bwlio: cyngor i benaethiaid, staff a chyrrff llywodraethu. Wedi'i gymryd o:  
[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/374850/Cyberbullying\\_Advice\\_for\\_Headteachers\\_and\\_School\\_Staff\\_121114.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/374850/Cyberbullying_Advice_for_Headteachers_and_School_Staff_121114.pdf)

Yr Adran Addysg. (2015). Cadw plant yn ddiogel mewn addysg: canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a cholegau. Wedi'i gymryd o:  
<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education--2>

Ditch the Label (2014). *The Annual Bullying Survey*. Wedi'i gymryd o  
<http://www.ditchthelabel.org/annual-bullying-survey-2014/>

Ditch the Label (2014). *The Wireless report 2014*. Wedi'i gymryd o  
<http://www.ditchthelabel.org/the-wireless-report-2014/>

Ditch the Label (2015). *The Annual Bullying Survey*. Wedi'i gymryd o  
<http://www.ditchthelabel.org/the-annual-bullying-survey-2015-is-here/>



- Ditch the Label. (2013). *The Annual Cyberbullying Survey*. Wedi'i gymryd o <http://www.ditchthelabel.org/the-cyber-bullying-survey-2013/>
- Eichhorn, K. (2001) 'Re-in/citing linguistic injuries: speech acts, cyberhate, and the spatial and temporal character of networked environments', *Computers and Composition*, 18:293-304.
- Gianassi, P. (2012) The United Kingdom approach to Hate crime, Papur cynhadledd na chafodd ei gyhoeddi, Riga Graduate School of Law, (ar gael yn [http://www.rgsl.edu.lv/uploads/files/RGSL\\_Konference\\_Cela\\_uz\\_ieklausu\\_sabi\\_edribu\\_241012\\_UK\\_approach.pdf](http://www.rgsl.edu.lv/uploads/files/RGSL_Konference_Cela_uz_ieklausu_sabi_edribu_241012_UK_approach.pdf))
- Gianassi, P. (2014) *Hate on the Internet: Progress on the UK Government's Hate Crime Action Plan*, cyflwynwyd ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru Gyfan, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Caerdydd, 23 Gorffennaf, 2014
- Greenawalt, K. (1989) *Speech Crime & The Uses of Language*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Hanes, E. a Machin, S. (2014) 'Hate Crime in the Wake of Terror Attacks: Evidence from 7/7 and 9/11', *Journal of Contemporary Criminal Justice*, 30:247-267.
- Hillyard, P, Tombs, S, a Gordon, D. (2004) *Beyond Criminology: Taking Harm Seriously*, Pluto Press.
- Hinduja, S. a Patchin, J. W. (2014). Cyberbullying Identification, Prevention, and Response. Cyberbullying Research Center ([www.cyberbullying.us](http://www.cyberbullying.us))
- Y Swyddfa Gartref (2014), Challenge it, report it, stop it: Delivering the Government's hate crime action plan, Llundain:HMSO
- IpsosMORI. (2014). *Health and Wellbeing of 15 year olds in England: Findings from the What About YOUth? Survey 2014*. The Health and Social Care Information Center. Wedi'i gymryd o <http://www.hscic.gov.uk/catalogue/PUB19244>
- iworks (2013), The Think Project Interim Evaluation, Dyfnaint: iworks ltd
- Joinson, A. N. (2003) *Understanding the Psychology of Internet Behaviour*, Llundain: Palgrave Macmillan.
- Savage, M. a Burrows, R. (2007) 'The Coming Crisis of Empirical Sociology', *Sociology*, 41/5: 885-899
- King, R. D. a Sutton, G. M. (2014) 'High Times for Hate Crimes: Explaining the Temporal Clustering of Hate Motivated Offending', *Criminology*, 51:871-894.

- Leets, L. (2001) 'Responses to Internet Hate Sites: Is Speech Too Free in Cyberspace?', *Communication Law and Policy*, 6:287-317.
- Legewie, J. (2013) 'Terrorist events and attitudes toward immigrants: A natural experiment', *American Journal of Sociology*, 118:1199–245.
- Levin, B. (2002) 'Cyberhate: A Legal and Historical Analysis of Extremists' Use of Computer Networks in America', *American Behavioral Scientist*, 45:958-988.
- Mishna, F., Khoury-Kassabri, M., Gadalla, T., a Daciuk J. (2012). Risk factors for involvement in cyber bullying: Victims, bullies and bully–victim. *Children and Youth Services Review*, 34, (1) 63–70
- Morell, G., Scott, S., McNeish, D. a Webster, S. (2011) *The August Riots in England*, NatCen.
- Mossberger, K., Tolbert, C. J., a McNeal, R. S. (2008) *Digital Citizenship: The Internet, Society and Participation*, MIT Press.
- Nixon, C. L. (2014). Current perspectives: the impact of cyberbullying on adolescent health. *Adolescent Health, Medicine and Therapeutics*, 5, 143–158.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015) *Internet Access – Households and Individuals 2015*, Bwletin Ystadegol, ONS.
- Oksanen, A., Hawdon, J., Holkeri, E., Nasi, M. a Rasanen, P. (2014) 'Exposure to Online Hate among Young Social Media Users', in M. Nicole Warehime (ed.) *Soul of Society: A Focus on the Lives of Children & Youth*, 253-273. Emerald.
- Perry, B. ac Olsson, P. (2009) 'Cyberhate: The Globalisation of Hate', *Information & Communications Technology Law*, 18:185-199.
- Phippen, A (2014) The online safety landscape of wales, University of Plymouth (aseswyded <http://swgfl.org.uk/products-services/esafety/wales-project/Content/WG-E-Safety-Landscape-Report-English>)
- Raskauskas J, Stoltz AD. (2007) Involvement in traditional and electronic bullying among adolescents. *Dev Psychol.* 43(3):564–575
- Sloan, L., Morgan, J., Burnap, P. a Williams, M. L. (2015) 'Who Tweets? Deriving the Demographic Characteristics of Age, Occupation and Social Class from Twitter User Meta-Data', *PLOS ONE*.
- Sloan, L., Morgan, J., Williams, M. L., Housley, W., Edwards, A., Burnap, P., Rana, O. (2013), 'Knowing the Tweeters: Deriving sociologically relevant demographics from Twitter', *Sociological Research Online* 18:7.

- Sourander A, Brunstein Komek A, Ikonen M, et al. (2010) Psychosocial risk factors associated with cyberbullying among adolescents: a population-based study. *Arch Gen Psychiatry*. 67(7):720–728
- Wall, D. S. a Williams, M. (2007) 'Policing diversity in the digital age: maintaining order in virtual communities', *Criminology and Criminal Justice*, 7:391–415.
- Llywodraeth Cymru. (2011). Parchu Eraill: canllawiau gwrth-fwlio. Wedi'i gymryd o <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?skip=1&lang=cy>
- Williams, M. L, Burnap, P. a Sloan, L. (2016), 'Crime Sensing with Big Data: The Affordances and Limitations of using Open Source Communications to Estimate Crime Patterns', *British Journal of Criminology*, Online Advance Access.
- Williams, M. (2006) *Virtually Criminal: Crime, Deviance and Regulation Online*. Routledge.
- Williams, M. L. a Tregidga, J. (2013) *All Wales hate crime research project: final report*. Caerdydd: Race Equality First. Ar gael yn: <http://www.cardiff.ac.uk/socsi/research/publications/Time%20for%20Justice-All%20Wales%20Hate%20Crime%20Project.pdf>
- Williams, M. L. a Tregidga, J. (2014) 'Hate crime victimisation in Wales: psychological and physical impacts across seven hate crime victim-types', *British Journal of Criminology*, 54:946-967.
- Williams, M. L., Edwards, A., Housley, W., Burnap, P., Rana, O., Avis, N., Morgan, J., a Sloan, L. (2013) 'Policing cyber-neighbourhoods: Tension monitoring and social media networks', *Policing and Society* 23:461-481.